Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ymweliad
# Lefel gweithgarwch dilynol: gwelliant sylweddol

**Ysgol Uwchradd Aberhonddu**
**Penlan**
**Aberhonddu**
**Powys**
**LD3 9SR**

**Dyddiad yr ymweliad: Chwefror 2014**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Tony Sparks | Arolygydd Cofnodol |
| Steffan James | Arolygydd Tîm |
| Marc Belli | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |
| Sue Halliwell | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Ysgol Uwchradd Aberhonddu wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mai 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o’r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â’r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd arolygwyr Estyn yn ailymweld â’r ysgol ymhen tua thri mis i arolygu cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

**Argymhelliad 1: Codi safonau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, yn enwedig mewn gwyddoniaeth, Cymraeg ail iaith a pherfformiad bechgyn**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae safonau yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella ers yr arolygiad craidd. Fodd bynnag, yn 2013, mae perfformiad ym mron pob un o ddangosyddion cyfnod allweddol 4 yn is nag oeddent adeg yr arolygiad ym Mai 2012.

Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2013, fe wnaeth perfformiad wella yn nhrothwy lefel 2 ac yn y sgôr pwyntiau wedi’i chapio, ac mae’n uwch nag ar adeg yr arolygiad diwethaf. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 ac mewn mathemateg hefyd wedi gwella ychydig yn 2013. Fodd bynnag, mae safonau wedi dirywio ym mhob dangosydd allweddol arall. Mae perfformiad yn 2013 yn rhoi’r ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar sail yr hawl i brydau ysgol am ddim ar gyfer pob un o’r deg dangosydd, o gymharu â phump yn 2011 a saith yn 2012. Gydag ychydig iawn o eithriadau, mae perfformiad yr ysgol wedi bod islaw cyfartaledd y teulu ym mhob dangosydd ar gyfer y pum mlynedd diwethaf.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg islaw disgwyliadau wedi’u modelu yn 2013. Er mwyn gwella deilliannau, cyflwynwyd nifer o ddisgyblion i sefyll TGAU mathemateg yn gynnar yn Nhachwedd 2013. Fodd bynnag, prin oedd llwyddiant y strategaeth hon oherwydd dim ond ychydig iawn a gyflawnodd gymhwyster lefel 2.

Mae cynnydd disgyblion o gyfnodau allweddol blaenorol ymhell islaw disgwyliadau. Yn y sgôr pwyntiau wedi’i chapio ac mewn presenoldeb, bu perfformiad islaw disgwyliadau wedi’u modelu ym mhob un o’r tair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 3, yn 2013, fe wnaeth perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd godi 11 pwynt canran, gan ei osod yn uwch nag oedd ar adeg yr arolygiad diwethaf. O gymharu â disgwyliadau wedi’u modelu ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd uwchlaw

disgwyliadau ar ôl bod islaw disgwyliadau am y ddwy flynedd flaenorol. Fodd bynnag, mae'n parhau islaw cyfartaledd y teulu.

Yn 2013, fe wnaeth canran y disgyblion a sicrhaodd lefel 5 neu uwch gynyddu mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae perfformiad yn y tri phwnc hyn bellach yn rhoi'r ysgol yn yr 50% isaf o ysgolion tebyg, tra roeddent wedi rhoi'r ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim am y ddwy flynedd flaenorol. Roedd perfformiad mewn bron pob un o'r pynciau nad ydynt yn bynciau craidd wedi gwella, ond mewn chwech o'r naw pwnc, mae'r ysgol yn parhau yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o gymharu ag wyth yn 2012 a chwech adeg yr arolygiad diwethaf.

Yn 2013, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 4 yn uwch na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol ym mron pob dangosydd allweddol. Yng nghyfnod allweddol 3, ar lefel 5 neu uwch, mae bechgyn yn perfformio'n well na merched mewn Saesneg a Chymraeg iaith gyntaf ond nid mewn mathemateg neu wyddoniaeth. Mewn wyth o'r naw pwnc nad ydynt yn bynciau craidd, mae merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ac mae'r gwahaniaeth yn fyw na chyfartaledd y teulu; mewn pum pwnc, mae'r gwahaniaeth yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol hefyd. Nid oes cynllun strategol clir i fynd i'r afael â thangyflawniad bechgyn.

Mae perfformiad nifer bach o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn 2013 yn is o lawer na pherfformiad disgyblion eraill yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

Disgynnodd cyfran y disgyblion a gyflawnodd gymhwyster lefel 2 mewn gwyddoniaeth yn 2013 ar ôl ychydig o gynnydd yn 2012. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth bellach yn is nag oedd adeg yr arolygiad diwethaf ac mae'r ysgol wedi parhau yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar gyfer pob un o'r tair blynedd diwethaf. Mae merched yn perfformio'n well o lawer na bechgyn. Yn 2013, mae'r gwahaniaeth yn eu perfformiad lawer yn uwch na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol. Yng nghyfnod allweddol 3, fe wnaeth perfformiad ar lefel 5 neu uwch wella 12 pwynt canran ac mae bellach yn rhoi'r ysgol yn yr 50% isaf o ysgolion tebyg, ond mae'n parhau islaw cyfartaledd y teulu. Roedd perfformiad ar lefel 6 neu uwch hefyd wedi gwella, ond o sylfaen is ac mae'r ysgol yn parhau yn y 25% isaf o ysgolion tebyg, yn ogystal ag ar gyfer perfformiad ar lefel 7 ac uwch. Mae perfformiad bechgyn a merched yn debyg ar lefel 5 ac uwch, ond ar lefel 6 ac uwch mae'r gwahaniaeth yn fwy o lawer na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mewn Cymraeg ail iaith, fe wnaeth perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 wella ychydig yn 2013 ond roedd islaw disgwyliadau o hyd. Yng nghyfnod allweddol 4, fe wnaeth canran y disgyblion a sicrhaodd gymhwyster lefel 2 wella'n sylweddol o gymharu â 2012 ac mae ychydig yn well nag yn 2011. Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol yn parhau islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac mae hefyd islaw'r disgwyliadau ar sail gallu disgyblion.

Mae penodiadau newydd wedi cryfhau a sefydlogi adran y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith bellach yn cael ei chynllunio'n dda ac roedd safonau ac ansawdd yr addysgu yn dda yn y gwersi a arsylwyd. Fodd bynnag, mae

absenoldeb staff wedi cael effaith negyddol ar gynnydd disgyblion presennol Blwyddyn 11.

Nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd digon da mewn tua hanner y gwersi. Er bod llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n frwdfrydig, nid yw cywirdeb technegol eu gwaith o safon ddigon uchel. Mae gan leiafrif o ddisgyblion waith ar goll o'u llyfrau neu waith anghyflawn ynddynt.

**Argymhelliad 2: Gwella presenoldeb**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Yn dilyn yr arolygiad craidd, mae presenoldeb wedi gwella o 90.2% yn 2011 i 92.6% yn 2013. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i osod yr ysgol yn chwarter isaf yr ysgolion tebyg ar sail hawl i brydau ysgol am ddim ac mae islaw'r disgwyl. Mae data heb ei wirio ar gyfer Tymor yr Hydref 2013 yn dangos gwelliant pellach clir i 94.6%. Ar hyn o bryd, mae hyn yn uwch na tharged yr ysgol gyfan, sef 93.8%. Mae'r presenoldeb presennol ar gyfer Blwyddyn 7 i Flwyddyn 10 uwchlaw targed yr ysgol ar gyfer y cyfnod hwn, ond mae presenoldeb Blwyddyn 11 wedi disgyn 0.2% islaw'r targed.

Mae'r uwch arweinydd sy'n gyfrifol am bresenoldeb wedi cyflwyno nifer o strategaethau effeithiol i wella presenoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys polisi presenoldeb clir a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd ymhlith disgyblion, staff a rhieni. Mae'r 'Gweithgor Presenoldeb' a ffurfiwyd yn ddiweddar yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb drwy ddadansoddi data ar berfformiad, a chynllunio a monitro ymyriadau i wella presenoldeb. Mae'r ysgol wedi datblygu system olrhain effeithiol sy'n rhoi data cywir i staff ar bresenoldeb disgyblion. Mae'r uwch arweinydd a'r staff presenoldeb yn defnyddio'r data hwn yn effeithiol i fonitro presenoldeb ysgol gyfan ac i dargedu cymorth at y disgyblion hynny sydd â chofnodion presenoldeb gwael. Caiff ffigurau presenoldeb eu dosbarthu'n wythnosol i diwtoriaid blwyddyn a'u cofnodi mewn dyddiaduron disgyblion. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth yr holl ddisgyblion a staff ynghylch pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd.

Mae'r tîm presenoldeb yn defnyddio'r data presenoldeb yn briodol i dargedu cymorth at grŵp o ddisgyblion â phresenoldeb gwael, yn enwedig y rhai â phresenoldeb islaw 80%. Caiff presenoldeb y grŵp hwn o ddisgyblion ei fonitro'n agos gan yr ysgol ac mae'r tîm presenoldeb yn gweithio'n dda gyda rhieni i wella'u presenoldeb. Mae'r ysgol wedi cyflwyno systemau rhybudd dyddiol priodol i hysbysu rhieni am unrhyw absenoldebau na roddwyd gwybod amdanynt. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella presenoldeb y rhan fwyaf o grwpiau o ddisgyblion.

**Argymhelliad 3: Cynyddu her addysgu i gyd-fynd â'r her a welir yn y gwersi gorau**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr wedi rhoi ystod o strategaethau addas ar waith i wella ansawdd yr addysgu. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth staff o

arfer dda, creu pecyn cymorth addysgu a dysgu i gefnogi staff a defnyddio strwythur cyson i gynllunio gwersi. Fodd bynnag, nid yw'r strategaethau hyn wedi llwyddo eto i wella ansawdd yr addysgu a'r deilliannau i ddisgyblion.

Mae'r uwch dîm arwain a'r rheolwyr canol yn arsylwi gwersi'n rheolaidd. Mae'r arsylwadau hyn yn canolbwyntio ar fethodoleg addysgu ond nid ydynt yn ystyried yn ddigon gofalus effaith yr addysgu hynny ar ddysgu'r disgyblion. O ganlyniad, mae gormod o arsylwadau yn rhoi barn sy'n rhy hael ac nid ydynt yn nodi'n union pa agweddau ar addysgu y mae angen eu datblygu ymhellach. Pan gaiff diffygion eu nodi, nid yw uwch arweinwyr ac arweinwyr canol bob amser yn darparu'r cymorth parhaus, â ffocws da, sy'n ofynnol i ysgogi gwelliant digonol.

Mewn lleiafrif o wersi, caiff addysgu ei gynllunio'n dda ac mae gweithgareddau'n caniatáu i ddisgyblion wneud cynnydd da. Fodd bynnag, mewn tua hanner o wersi, nid oes digon o her i ddisgyblion â galluoedd gwahanol ac mae rhediad y dysgu'n rhy araf. Yn y gwersi hyn, nid yw disgwyliadau athrawon o'u disgyblion yn ddigon uchel ac nid yw disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud.

Mae'r tîm arwain wedi cynnal archwiliad o gynlluniau gwaith i nodi cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd pob disgybl. Fodd bynnag, mae gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, yn benodol cynllunio ar gyfer dilyniant medrau disgyblion, wedi'i danddatblygu o hyd.

**Argymhelliad 4: Gwella ansawdd a chysondeb y marcio a'r adborth a roddir i ddisgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, mae uwch reolwyr wedi rhoi mwy o bwyslais ar fonitro a gwella ansawdd a chysondeb y marcio a'r adborth a roddir i ddisgyblion. Maent yn craffu ar lyfrau yn rheolaidd trwy fonitro gan yr uwch dîm a thrwy adolygiadau llyfrau ysgol gyfan. Fodd bynnag, mae'r adolygiadau hyn yn aml yn canolbwyntio ar amlder y marcio a'r adborth yn hytrach nag ar ba mor dda y mae'n helpu disgyblion i wella.

Mae ansawdd y marcio a'r asesu mewn ychydig bynciau yn fanwl a chefnogol ac yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gwneud digon o ddefnydd o'r arfer dda hon i godi ansawdd y marcio a'r adborth ar draws pob pwnc. Mewn sawl achos, nid yw disgyblion yn cwblhau eu gwaith nac yn gweithredu yn sgil argymhellion athrawon, yn enwedig o ran atalnodi a sillafu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gofyn i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Fodd bynnag, nid yw llawer o staff a disgyblion yn deall diben y gweithgareddau hyn yn dda. O ganlyniad, nid yw'n cael effaith sylweddol ar wella ansawdd gwaith disgyblion.

**Argymhelliad 5: Cynyddu atebolrwydd uwch reolwyr a rheolwyr canol am wella safonau ac ansawdd, trwy drefniadau rheoli llinell trylwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cyflwyno nifer o gamau addas i helpu i wella atebolrwydd am safonau ac ansawdd yr addysgu.

Cynhelir cyfarfodydd rheoli linell rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol bob pythefnos ac mae eitemau cyffredin ar yr agenda i sicrhau mwy o gysondeb. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd yn canolbwyntio'n ddigonol ar wella addysgu a dysgu.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno systemau addas i nodi'n gywir feysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid oes digon o drylwyredd yn lefel her uwch arweinwyr wrth fynd i'r afael â diffygion a nodwyd. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i wella safonau.

Ers yr arolygiad craidd, cynhelir cyfarfodydd adrannol pynciau yn fwy rheolaidd. Mae gan y rhan fwyaf o adrannau ffocws cliriach ar godi safonau. Yn yr adrannau hyn, mae arweinwyr canol ac athrawon ystafelloedd dosbarth yn dechrau defnyddio data'n fwy effeithiol i olrhain perfformiad disgyblion. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o adrannau, nid oes digon o ffocws o hyd ar wella ansawdd addysgu er mwyn helpu i godi safonau.

Mae arweinwyr uwch yn dechrau herio tanberfformiad yn fwy cadarn. Caiff arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau eu gwneud yn rheolaidd ac mae arweinwyr ar bob lefel yn cymryd rhan yn y broses. Mae hyn yn dechrau helpu'r ysgol i nodi meysydd i'w gwella ac anghenion hyfforddi. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi bod yn rhy araf yn herio tanberfformiad. O ganlyniad, mae diffygion pwysig yn parhau mewn addysgu a safonau ar draws yr ysgol.

At ei gilydd, nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn ôl yr argymhelliad hwn. Ar hyn o bryd, mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd yr arweinyddiaeth ar bob lefel i ysgogi gwelliannau mewn safonau ac yn ansawdd yr addysgu.

**Argymhelliad 6: Gwella craffter ac eglurder cynllunio gwelliant ar bob lefel, gan ddefnyddio targedau penodol a mesuradwy**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, bu llawer o weithgarwch i wella'r defnydd ar ddata, gwerthuso arfer mewn addysgu ac asesu ac adolygu cynnydd yn ôl yr argymhellion. Fodd bynnag, ni sicrheir ansawdd y gweithgareddau hyn yn drylwyr ac nid yw'r cysylltiadau rhwng gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn gadarn.

Mae'r ysgol wedi gwella'r defnydd ar ddata i osod targedau ar gyfer disgyblion ac adrannau. Mae'r targedau perfformiad mewn cynlluniau yn rhai penodol. Mae disgyblion yn ymwybodol o'u targedau a'u cynnydd presennol, er eu bod yn llai clir ynghylch beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Hefyd, mae'r system olrhain wedi helpu'r ysgol i nodi disgyblion sydd angen cymorth. Fodd bynnag, nid yw'r cymorth hwn yn cael ei gydlynu'n ddigonol a dim ond mewn ychydig iawn o enghreifftiau y mae meini prawf llwyddiant clir, dyddiadau dechrau, camau gweithredu a dyddiadau gorffen yn cael eu nodi.

Nid oes blaenoriaethau strategol clir gan gynllunio ar lefel ysgol gyfan ac ar lefel pwnc er mwyn gwella safonau addysgu a dysgu. Nid yw gweithgareddau

hunanarfarnu yn canolbwyntio'n ddigonol ar safonau a chynnydd disgyblion. Mae'r fformatau a ddefnyddir ar gyfer craffu ac arsylwi yn ymwneud yn bennaf â gwirio cydymffurfiaeth ag ystod eang o ddisgwyliadau o ran addysgu a marcio. Nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar effaith y gweithgareddau hyn ar ddysgu. Nid yw hunanarfarnu yn arwain at nodi meysydd i'w gwella mewn addysgu a dysgu ar lefel ysgol gyfan ac ar lefel pwnc yn fanwl.

**Argymhelliad 7: Cynllunio i ddatrys y diffyg yn y gyllideb yn effeithiol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cynllunio'n effeithiol i ddatrys y diffyg yn y gyllideb.

Mae'r diffyg yn y gyllideb wedi'i ostwng yn sylweddol a chaiff gwariant ei fonitro'n fanwl gan y pennaeth a'r rheolwr busnes. Mae rhagolwg cyllidebol pum mlynedd yn nodi heriau posibl yn y dyfodol ac mae'r ysgol yn gweithredu'n gadarn i leihau'r anawsterau hyn a lleihau'r effaith ar y cwricwlwm.

Mae'r llywodraethwyr wedi cefnogi'r ysgol yn dda, gan wneud penderfyniadau anodd i ddatrys y diffyg yn y gyllideb. Maent wedi cytuno ar gynllun gyda'r awdurdod lleol i ddatrys yr heriau ariannol presennol, a fydd yn arwain at sefyllfa fantoledig erbyn diwedd Mawrth 2014.

**Argymhelliad 8: Bodloni gofynion statudol ar gyfer y weithred ddyddiol o gyd-addoli**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi cryfhau ei threfniadau i fodloni'r gofynion statudol ar gyfer y weithred ddyddiol o gyd-addoli.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno llyfryn defnyddiol ar gyd-addoli, sy'n diffinio sefyllfa addoli o ran cyfrifoldebau cyfreithiol yr ysgol ac yn amlinellu prosesau'r ysgol ar gyfer cyflwyno'r weithred o gyd-addoli. Mae hyn yn cynnwys ffocws ysgol gyfan ar 'funud i feddwl' dyddiol gyda thema wythnosol. Mae'r llyfryn yn cynnwys ystod o ddeunyddiau priodol o ran oedran, sy'n cael eu defnyddio'n dda gan diwtoriaid dosbarth i roi cyfle am weddi a myfyrdod dyddiol i ddisgyblion.

Mae'r holl staff wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol i gefnogi cyflwyno deunyddiau newydd. Mae staff uwch yn monitro'r trefniadau diwygiedig yn gadarn ac yn herio a chefnogi staff, lle y bo'n briodol, er mwyn helpu staff i wella'u harfer a sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'i gofynion statudol ar gyfer cyd-addoli.

O ganlyniad i'r trefniadau cadarnach, mae'r ysgol bellach yn llwyr fodloni'r gofynion statudol ar gyfer y weithred ddyddiol o gyd-addoli.